

## ❖ AI BREUDDWYD OEDD Y CYFAN?

*Mair***Darllen: Luc 1:26–38****Myfyrdod**

Ai breuddwyd oedd y cyfan,  
 a ffrwyth fy nychymyg?  
 Mae'n rhaid cyfaddef mai felly rwy'n teimlo'n awr,  
 ond ar y pryd yr oedd mor fyw  
 mor gyffrous,  
 ac eto mor ddychrynlyd.  
 'Henffych well, tydi, yr un y rhoddodd Duw ei ffafr iddi!'  
 Llamodd fy nghalon pan glywais y geiriau –  
 myfi, Mair, o bawb,  
 wedi fy newis gan Dduw ei hun.  
 Ond yna llefarodd yr angel eto,  
 'Byddi'n beichiogi yn dy groth ac yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu.'  
 Dyna'r peth olaf a ddisgwyliais!  
 Er hynny, yn rhyfedd iawn,  
 ni wneuthum fawr ddim  
 i wrthwynebu'r syniad –  
 dim ond un cwestiwn bach: 'Sut y digwydd hyn?'  
 Rwy'n rhyfeddu'n awr, wrth edrych yn ôl,  
 ond ar y pryd yr oedd yn ymateb cwbl naturiol.  
 Pam?  
 Wel, ar y pryd, cystal cyfaddef nad oeddwn i'n credu'r peth.  
 Ystyriais y mater yn ddwys,  
 ond pe byddech wedi 'ngorfodi i fynegi fy nheimpladau,  
 byddai gormod o gwestiynau i'w hanwybyddu –  
 a oeddwn wedi camddehongli'r arwyddion,  
 a oeddwn wedi dychmygu'r holl beth,  
 neu wedi gwrando ar ormod o chwedlau?  
 Ond nid dyna'r rheswm pennaf,  
 oherwydd fy ngwir ddymuniad oedd credu, ar waetha'r cwbl.  
 Oni fyddech chithau yn rhannu fy nymuniad  
 pe byddech wedi derbyn yr un addewid:  
 'Bydd hwn yn fawr, a Mab y Goruchaf y gelwir ef;  
 rhydd yr Arglwydd Dduw iddo orsedd Dafydd ei dad,  
 ac fe deyrnasa ar dŷ Jacob am byth.'  
 A oes angen dweud mwy?  
 Roedd y ffaith fod y plentyn yn annisgwyl yn syfrdanol i mi –  
 ond teyrnasu ar Israel,  
 Gwardwr,  
 cnawd o'm cnawd fy hun,  
 roedd hynny yn ormod i rywun fel fi ei ddychmygu,  
 ac eto yn rhy aruthrol i'w ddiystyru'n gyfan gwbl.  
 Ai breuddwyd oedd y cyfan?  
 Ni allaf gredu hynny mwyach,  
 oherwydd wrth lefaru'r geiriau hyn  
 rwy'n eistedd mewn stabl,  
 yn syllu ar breseb,  
 ac yno'n gorwedd mae fy mhlentyn bach,

Iesu.  
Digwyddodd,  
yn union yn ôl yr addewid,  
yn union fel y dywedodd yr angel,  
ac os oedd Duw yn iawn yn y cyswllt hwn,  
pam nad y gweddill hefyd?  
Sut gallaf i beidio â chredu?

### **Gweddi**

Arglwydd,  
yn Iesu Grist yr wyt wedi ymestyn  
i gyrrau'r ddaear.  
Addewaist dy waredigaeth i'th bobl,  
ac yng nghyflawnder yr amser cyflawnaist dy addewid.  
Buost yn Dduw ffyddlon o'r dechreuadau,  
cyflawnaist dy holl addewidion.  
Boed i'th ffyddlondeb ein hysbrydoli  
i ymddiried ynot yn well,  
gan wybod pa beth bynnag a ddaw  
ni phalla dy air.

**Nick Fawcett, cyf. Olaf Davies**